



**YMDRIN Â THROSEDDWYR - DDOE A HEDDIW**

**Trosedd** yw gweithred anghywir y gellir cosbi rhywun amdano yn ôl y gyfraith. Mae dulliau o ddelio â throseddwyr wedi amrywio o oes i oes ac hyd heddiw nid oes cytundeb llawn ar sut i ddelio â throseddwyr. Fel arfer rhoddir **cosb** o ryw fath. Yn draddodiadol y man cychwyn yn y byd gorllewinol oedd geiriau'r Hen Destament- **'Llygad am lygad, dant am ddant'**. Yn syml os oedd rhywun yn eich brifo roedd gennych yr hawl i'w brifo'n ôl. Petai rhywun yn cymryd eich eiddo roedd gennych hawl i gymryd rhywbeth o'r un gwerth. Yr oedd hawl felly i ddial, talu yn ôl a gwneud iawn am eich colled. Ar adegau teimlwyd bod angen carcharu pobl er mwyn amddiffyn eraill rhag troseddwr peryglus. Teimlwyd bod angen sicrhau fod pobl yn sylweddoli eu cam yn y gobaith y byddent yn newid er gwell. I raddau bu newid mewn agwedd a mwy o help i adfer a **diwygio**'r troseddwr.





**<u>AGWEDD CRISTNOGION</u>**

Byddai Cristnogion yn troi at y Testament Newydd am arweiniad. Mae'n dysgu y bydd pobl yn cael **maddeuant** Duw. Felly dylai credinwyr ymddwyn mewn ffordd debyg gan faddau i eraill – dyma'r ddelfryd beth bynnag. O edrych ar droseddwyr heddiw mae llawer yn rhoi sylw i eiriau Iesu, fel y canlynol – **''Câr dy gymydog fel ti dy hun' Nid oes gorchymyn mwy na hyn''**(Marc12:31), gan ddadlau mai dangos cariad at eraill yw dyletswydd cyntaf y Cristion. Un o ddamhegion enwocaf Iesu yw **'Barnu'r cenhedloedd'** lle mae Iesu'n gosod ei hun yn sefyllfa eraill **– 'Oherwydd bûm yn newynog a rhoesoch fwyd imi ............bûm yng ngharchar a daethoch ataf'** (Mathew 25:35-36). Ar ddiwedd y ddameg mae Iesu'n canmol y sawl a fu'n barod i helpu gan addo gwobr i'r bobl hynny.




O ganlyniad i hyn mae rhai Cristnogion wedi cael eu hysbrydoli i gynnig gwasanaeth cefnogi ar gyfer cyn-garcharorion. Maent hefyd wedi cynnig cymorth i garcharorion a'u teuluoedd. Mae hyn wedi cynnwys trefnu bws ymweliadau i'r carchar. Un enghraifft o hyn yw **Eglwys Bresbyteraidd Noddfa yng Nghaernarfon.** Mae ymdeimlad o fewn yr eglwys fod gwasanaethu'r gymuned ym mhob ffordd yn rhan hanfodol o waith yr eglwys. Mae ganddynt brosiect o dan y teitl **BARA Arfon** sy'n cefnogi cyn-garcharorion a'u teuluoedd. Yr hyn sy'n poeni pobl yw'r modd y mae gymaint ohonynt yn ail droseddu. Mae llawer yn ddigartref ar ôl gadael y carchar. Mae llawer yn medru dychwelyd at eu teuluoedd ond yn methu cael gwaith. Anodd ydyw i lawer ail afael mewn bywyd sy'n rhydd o droseddu a phroblemau felly rhaid rhoi help ymarferol.

Ar y llaw arall mae Cristnogion hefyd yn dadlau y gall cosb a maddeuant fynd law yn llaw. Rhaid amddiffyn y diniwed rhag troseddwyr. Mae newid agwedd troseddwyr yn bwysig a'u cael i sylweddoli nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Rhaid sicrhau cyfiawnder ac mae hynny'n cynnwys cosb.

**AGWEDD ISLAM**

"Os bydd unrhyw un yn lladd rhywun - oni bai ei fod yn cael ei lofruddio am lofruddiaeth neu ledaenu drygioni drwy'r tir - bydd fel pe bai'n lladd pob dyn, tra os yn arbed bywyd, bydd fel pe bai yn achub bywydau pob dyn."

Mewn Islam mae maddau a chymodi'n bwysig ond rhaid amddiffyn cymdeithas rhag troseddwyr. Mae cosb yn dderbyniol fel elfen o gyfiawnder - atal pobl rhag troseddu pellach a'u harwain ar y llwybr cywir. Mae Mwslimiaid o'r farn fod pobl sydd yn troseddu yn mynd yn erbyn y **Qur'an** gan haeddu cosb yn ôl y gyfraith a chosb Allah ar Ddydd y Farn. Mae Islam yn gweithredu **cyfraith Shari'ah** mewn modd cyfiawn a chyhoeddus. Yn ôl y Qur'an **'Safwch yn gadarn dros gyfiawnder, fel tystion i Dduw, hyd yn oed yn eich achos eich hun, eich rhieni, eich teulu; y cyfoethog neu'r tlawd'** (Qur'an 4:135)

Rhaid gweld tegwch yn cael ei weithredu a hynny mewn ffordd gyfiawn gyda chyfle ar gyfer adferiad. Mae llawer o Fwslimiaid yn poeni am les carcharorion gan ymgyrchu dros wella carchardai, ymweld â charcharorion gan sicrhau cyfleoedd ar eu cyfer wrth adael y carchar. Y mae'r Qur'an er hynny yn cynnwys cosbau llym yng ngolwg gwledydd y Gorllewin. Un enghraifft ydyw torri llaw i ffwrdd am ddwyn difrifol, cosb na fyddai yn cael ei chaniatáu yng Nghymru.


**Y GOSB EITHAF**

Y wladwriaeth yn unig sydd â'r hawl i wneud hyn yn dilyn achos llys teg. Mae'r **gosb eithaf** yn dal i fodoli mewn **dros 50 o wledydd** (er nad yw bob un o'r gwledydd yn ei weithredu). Ni fu dienyddio **yng ngwledydd Prydain ers 1964** a bellach y mae wedi cael ei ddileu er ei fod yn parhau yn bwnc trafod.

Cafodd **dros 2,000 o bobl eu dienyddio yn 2015**; **dros 1,000 yn China.** Yn ail roedd **Iran (360)**; yna **Saudi Arabia (82+); UDA (43**, hanner ohonynt yn Texas), ac **Irac (68). Belarus** yw'r unig wlad yn Ewrop sy'n parhau i wneud.

## Dedfrydau byd-eang a dienyddio yn 2015


Y gosb eithaf - niferoedd byd eang yn 2015



- **Diddymwyr yn ymarferol** *Abolitionists in practice*
- **Wedi ei ddiddymu** *Abolitionist*
- **Diddymu am droseddau cyffredin** *Abolitionists for ordinary crimes*
- **Cadw'r gosb eithaf** *Retentionist*

# Y Gosb eithaf

2011




**Gwledydd sy'n gosod:**

- Dedfryd o farwolaeth a dienyddio
- *00* Nifer yn cael eu ddienyddio
- Dedfryd o farwolaeth yn unig

Ffynhonnell: Amnesty International

**DADLEUON DROS Y GOSB EITHAF**

Mae'n atal pobl rhag llofruddio ac yn diogelu cymdeithas rhag terfysgwyr a llofruddwyr cyson. Mae'n adlewyrchu rhai o osodiadau'r Hen Destament ac yn arbed llawer o arian i'r wlad! Mae'n cau'r achos i'r teulu ac yn eu help i symud ymlaen.

**DADLEUON YN ERBYN**

Yn anffodus mae pobl diniwed wedi eu cosbi ar gam ac ni ellir cywiro'r sefyllfa. Mae pob bywyd yn sanctaidd ac nid yw lladd yn enw'r wlad yn dderbyniol. Dylai'r perygl o garchar am oes fod yn ddigon i atal llofrudd. Ambell dro gwelir terfysgwr fel merthyr o gael ei ddienyddio.





**CRISTNOGION A'R GOSB EITHAF**

Byddai rhai Cristnogion yn troi at yr **Hen Destament** gan dynnu sylw at eiriau cyfraith Moses ar yr hawl i ddial – **'os bydd niwed pellach, yr wyt i hawlio bywyd am fywyd, llygad am lygad, dant am ddant'** (Exodus 21:23-24).
Byddai rhai Cristnogion yn cytuno ag amryw o'r dadleuon uchod dros y gosb eithaf.

Ar y llaw arall mae'n debyg y byddai'r rhan fwyaf o Gristnogion heddiw yn anghytuno â'r gosb eithaf. Mae pwyslais neges Iesu ar osgoi trais gan ddangos maddeuant a chariad. Mae geiriau'r **Testament Newydd** yn newid y pwyslais wrth i Iesu ddweud **' "Llygad am lygad, dant am ddant", Ond rwyf i'n dweud wrthych: peidiwch a gwrthsefyll y sawl sy'n gwneud drwg i chwi. Os bydd rhywun yn dy daro ar dy foch dde, tro'r llall ato hefyd'.**


**YM MARN CRISTNOGION:**

- Dysgodd Iesu am gariad a maddeuant;
- Daeth Iesu i achub pobl a'u newid er gwell;
- Mae pob bywyd yn sanctaidd ac yn eiddo Duw;
- Mae'r chweched gorchymyn yn glir - '**Na ladd'**
- Perthyn y gosb eithaf i oes mwy cyntefig;

- Bu **Cymdeithas y Cyfeillion (Y Crynwyr)** yn ymgyrchu yn erbyn y gosb eithaf ers 1818. Y mae hyn hefyd yn rhan o ymgyrch **Amnest Rhyngwladol.**




Amnesty International




*"Pam yr ydym yn **lladd** pobl sydd yn **lladd** pobl i dangos fod **lladd** pobl yn anghyfiawn?"*

**<u>ISLAM A'R GOSB EITHAF</u>**

Yr enw ar y drefn gyfreithiol Islamaidd yw **Cyfraith Shari'ah**. Mae wedi ei sylfaeni ar gyfiawnder mewn modd sy'n sicrhau fod pob person yn cael chwarae teg. Mae Islam yn gweld y gosb eithaf fel un y gellir ei chyfiawnhau ar gyfer rhai troseddau difrifol. Mae cyfraith Shari'ah yn caniatáu'r gosb eithaf am y canlynol:

- **Llofruddiaeth bwriadol.** Mae gan deulu'r dioddefwr yr hawl i ddweud os ydynt yn dymuno i'r llofrudd gael ei ddienyddio.
- **Bygwth tanseilio awdurdod**. Mae hwn yn faes eang y gellir ei ddehongli mewn sawl ffordd; e.e. brad a therfysgaeth, gweithredu'n fwriadol yn erbyn Islam.

O ganlyniad mae gwledydd Mwslimaidd i gyd yn caniatau y gosb eithaf ond nid yw pob un o'r gwledydd hynny'n ei weithredu. Ond er hyn credir rhai Mwslemiaid fod maddeuant yn well; gan mai maddeuant (ynghyd â heddwch) yw un o brif themâu'r Qur'an.